# Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

1 Medi 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*Ers i Janet Finch Saunders gael ei hethol yn Aelod Cynulliad dros Aberconwy yn 2011, faint o staff a gyflogwyd ganddi yn y Senedd yng Nghaerdydd a hefyd yn ei swyddfa etholaeth yn Llandudno hyd at y dyddiad presennol?*

Mae'r Penderfyniad ar gyflog a threuliau'r Aelodau yn datgan y caiff Aelodau hawlio lwfans i dalu cyflog hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cyfateb i 111 o oriau gwaith yr wythnos i staff a gyflogir yn barhaol, ar sail llawn amser neu ran amser. Gall staff dros dro hefyd gael eu cyflogi am hyd at chwe mis yn ychwanegol at staff parhaol.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm nifer yr unigolion a gyflogwyd gan Janet Finch-Saunders AC ers mis Mai 2011 ar sail dros dro ac yn barhaol ym Mae Caerdydd ac yn Llandudno.

| | |
|---|---|
| Staff parhaol a gyflogwyd ers mis Mai 2011 | 14 |
| Staff dros dro a gyflogwyd ers mis Mai 2011 | 13 |
| **Cyfanswm** | **27** |

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF